5. Mae'r gwaith o ddadansoddi'r samplau o bridd a'r data eraill yn mynd yn ei flaen. Mae'n cynnwys mesur lefel y maeth a'r halogydion ac amrywiaeth y bacteria a'r creaduriaid di-asgwrcen, a mesur y broses o gylchu maetholion yn y pridd. Bydd yr adroddiad hwnnw'n cael ei gyhoeddi ym mis Tachwedd 2009, a bydd adroddiad pwrrpasol ar wahân ar ddŵr croyw'n cael ei ryddhau'r un pryd. Mae'r gwaith yn mynd ymlaen hefyd ar wneud Dadansoddiad Integredig o'r data ynglŷn â'r llystyfiant, y pridd a'r dŵr. Pwrpas y dadansoddiad hwn yw adnabod y ffyrdd mae gwahanol gydrannau'r dirwedd yn rhwngweithio â'i gilydd a gweld pa newidiadau amgylcheddol (fel rheoli tir, dyddodion yn yr atmosffer a'r newid yn yr hinsawdd) sy'n achosi'r gwahanol newidiadau. Y gobaith yw ei gyhoeddi yn 2010. Yn olaf, mae data o loereni ar gyfer y DU yn cael eu prosesu, a bydd y rhain yn sail i'r fersiwn nesaf o'r Map Gorchudd Tir sydd ar sail synhwyro o bell ac sydd i fod i gael ei ryddhau ar ddechrau 2010. Yr adroddiadau hyn ar y DU ac ar y gwledydd unigol yw dechrau'r gwaith o ddefnyddio'r set fawr ac unigryw hon o ddata a fydd yn mynd yn sail i nifer o astudiaethau gwyddonol. Mae'r holl adroddiadau ar gael i bawb eu gweld ar [www.countryside survey.org.uk/data.html](http://www.countrysidesurvey.org.uk/data.html)

## Y canlyniadau

### Arwynebedd y Cynefinoedd Eang

- O gymharu data 1998 â data 2007 a chymryd mesur cyfartalog ar gyfer Cymru gyfan, nid oedd fawr o newid yn arwynebedd y rhan fwyaf o'r Cynefinoedd Eang. Cafodd nifer o newidiadau sy'n arwyddocaol yn ystadegol eu gweld yn yr arwynebeddau yn y ddau barth amgylcheddol yng Nghymru o gymharu data 1998 â rhai 2007. Ar dir isel yng Nghymru, roedd cynnydd o 8,900ha yn y coetiroedd o goed Colddail, Cymysg ac Yw. Ar dir uchel, roedd cynnydd o 4,300ha o dir Âr a Garddwriaethol, lleihad o 33,300ha o Laswelltir Niwtral a chynnydd o 13,000ha o Laswelltir Asidig. Mater i waith ymchwil pellach yw archwilio'r pethau a allai fod wedi achosi'r newidiadau hyn a dod i ddeall yn well yr ansicrwydd sydd ynghlwm â nhw.
- Yr amcangyfrif yw bod lleihad o 55% wedi bod yn arwynebedd y tir sydd â Rhedyn fel y prif dyfiant. Y diffiniad o Gynefin Eang o Redyn yw un lle mae Rhedyn yn gorchuddio 95% neu fwy o'r tir, ac roedd Rhedyn i'w weld o hyd yn 2007 yn gorchuddio llawer o dir mewn ardaloedd nad yw bellach yn bosib eu dosbarthu fel Cynefinoedd Eang o Redyn. Mae newid statws yn arwydd felly o drothwy'r gorchudd o Redyn sy'n gysylltiedig â'r diffiniad, yn ogystal â ffactorau eraill a allai fod yn gysylltiedig â gweld llai o orchudd o Redyn yn 2007. Yn eu plith mae effaith llawer iawn o law dros yr haf, ac effaith dulliau lleol o reoli tir. Byddai gofyn gwneud mwy o waith ymchwil cyn gallu dod i ddeall y newid hwn yn well. Beth bynnag, mae'r trothwy sy'n cael ei ddefnyddio i ddiffinio'r Cynefin Eang yn golygu nad oedd y lleihad yn yr arwynebedd yn cyd-fynd â gweld Rhedyn yn diflannu'n gyffredinol.

**3.** Yr amcangyfrif yw bod cynnydd o 14,700ha wedi bod rhwng 1998 a 2007 yn arwynebedd y Mannau Adeiledig a'r Cynefinoedd Eang o Erddi. Roedd y cynnydd ar dir uchel yn ddigon tebyg i'r cynnydd ar dir isel. Yn ysgwariau ar gyfer yr arolwg, adeiladau newydd oedd yn gyfrifol am hanner y cynnydd ac roedd y gweddill yn cynnwys gweithfeydd gro, parciau carafannau, gerddi ac estyniadau i ffiniau buarthau a thai allan ar ffermydd. Roedd 86% o'r cynnydd a gafodd ei fapio'n cymryd lle Glaswelltir wedi'i Wella, Glaswelltir Niwtral, neu Ffiniau a Nodweddion Llinellol.

**4.** Mewn rhai achosion, roedd y newidiadau yn arwynebedd y Cynefinoedd Eang a welwyd yng Nghymru rhwng 1998 a 2007 i'w gweld hefyd ar hyd a lled Prydain Fawr, yn cynnwys y lleihad yn arwynebedd y mannau o Gynefin Eang o Redyn a'r cynnydd mewn Glaswelltiroedd Asidig a Choetiroedd o goed Colddail, Cymysg ac Yw. Y newidiadau a gafodd eu gweld yng Nghymru ond nad oedd i'w gweld ar draws Prydain Fawr oedd cynnydd yn arwynebedd y mannau Adeiledig a'r Cynefinoedd Eang o Erddi, a lleihad yn arwynebedd y mannau o Ffiniau a Nodweddion Llinellol (sy'n debyg o gynnwys gweld priffyrrd a rheilffyrrd yn cael eu cynnwys yn sgil ymestyn tir adeiledig). Ar y llaw arall, nid oedd y lleihad yn arwynebedd tir Âr a Garddwriaethol a'r cynnydd yn arwynebedd Glaswelltir wedi'i Wella a Glaswelltir Niwtral yn unol â'r amcangyfrif ar gyfer y cyfan o Brydain Fawr.

#### **Y canlyniadau yn eu cyd-destun**

Mae'r Arolwg Cefn Gwlad yn cynnig amcangyfrifon diweddar ynglŷn â hyd a lled y Cynefinoedd Eang yng Nghymru. Ar gyfer llawer o'r cynefinoedd hyn, dyma'r ffynhonnell ddiweddaraf o wybodaeth o'r fath. Mae'n bosib cymryd yr amcangyfrifon o'r Arolwg o hyd a lled cynefin a'u cymharu ag amcangyfrifon arolygon eraill. Pan mae gwahaniaethau i'w gweld, mae'n debyg mai gwahaniaethau yn y fethodoleg sy'n gyfrifol. Gan mai cymharu cyfres o setiau o ddata a methodoleg gyson sy'n sail i'r Arolwg, mae'n cynnig amcangyfrifon gwrrhrychol o'r newidiadau yn hyd a lled Cynefinoedd Eang, yn wahanol i unrhyw arolwg sy'n cael ei wneud un tro'n unig.

Ychydig iawn o newidiadau yn hyd a lled cynefinoedd a gafodd eu cofnodi wrth gymharu 1998 â 2007, ac roedd llai byth o newidiadau sy'n debyg o fod wedi digwydd yn sgil newid y ffordd mae tir yn cael ei ddefnyddio. Mae'r cynnydd yn y cynefin Âr a Garddwriaethol ym mhARTH y tir uchel ac yn y cynefin o goetiroedd Colddail, Cymysg ac Yw ym mhARTH y tir isel yn gyson â'r nod gyffredinol ar gyfer bioamrywiaeth (er bod rhaid dadansoddi eto i ba raddau y mae hyn yn golygu gwir enillion). Roedd y cynnydd mewn ardaloedd Adeiledig a Gerddi wedi digwydd yn bennaf ar draul y mathau o laswelltiroedd y mae amaethyddiaeth wedi'u gwella. Efallai fod y lleihad sylweddol a welwyd yn hyd a lled Rhedyn yn arwydd o sensitfrwydd y broses o ddosbarthu cynefinoedd oherwydd newidiadau cymharol fach yn y gorchudd yn y clystyrâu o redyn. Mae angen gwneud mwy o waith i asesu a yw gwaith rheoli wedi cyfrannu at y lleihad hwn.

Mae'r Arolwg Cefn Gwlad yn golygu gwneud arolygon dro ar ôl tro o gynefinoedd cyffredin a chyffredinol. Mae'r mathau prinach yn cael eu gweld yn llawer rhy anami i'w gwneud hi'n bosib asesu eu hyd a'u lled neu eu cyflwr. Ac mae'r rhan fwyaf o gynefinoedd sy'n

cael y flaenoriaeth bennaf o safbwyt cadwraeth natur yn dod y tu hwnt i gwmpas yr Arolwg. Er hynny, mae'r Arolwg yn cynnig llawer o wybodaeth am gyflwr cyffredinol cefn gwlad Cymru lle mae'r cynefinoedd prinach yma i'w gweld. Mae hyn yn bwynt pwysig - mae'r hyn sy'n digwydd yng nghefn gwlad yn gyffredinol yn gallu effeithio'n sylweddol ar dameidiau llai a lleol o lystyfiant lled-naturiol.

#### **Cyflwr y llystyfiant**

1. O gymharu 1998 â 2007, roedd dirywiad yn helaethrwydd y rhywogaethau o blanhigion ar bob safle samplu ar hyd a lled Cymru, a'r un patrwm oedd i'w weld dros y cyfnod hirach 1990-2007. Roedd y dirywiad hwn yn effeithio'n arbennig ar helaethrwydd y planhigion mae larfau glöynnod byw (ieir bach yr haf) yn eu bwyt. Roedd y dirywiad yn ddrwg iawn rhwng o leiaf dau o'r arolygon ac ar bob tirwedd samplu a oedd yn cynnwys: caeau a mannau mwy o gynefin cyffredin, nodweddion llinellol yn cynnwys ymylon ffyrdd, ffiniau caeau, glannau nentydd, gwrychoedd, a thameidiau o gynefinoedd bach. Er bod y casgliad hwn wedi'i seilio ar lai o safleoedd samplu a oedd yn cael eu samplu unwaith eto, efallai fod y lleihad yn arwydd o duedd y mae'n bosib ei holrhain yn ôl i'r arolwg cyntaf yn 1978.
2. Roedd y rhywogaethau o blanhigion estron yn y llystyfiant ar y safleoedd samplu'n anghyffredin yn 2007 (i'w gweld ar un o bob chwe safle, ar gyfartaledd). Rhwng 1978 a 2007, dirywiodd helaethrwydd y rhywogaethau estron ochr yn ochr â helaethrwydd y rhywogaethau brodorol. Mae'n glir bod is-set fach iawn o'r rhywogaethau hyn yn ymledol, ond rhaid gwneud mwy o waith dadansoddi er mwyn asesu eu lleoliad a'r newidiadau diweddar yn eu helaethrwydd.
3. Roedd newidiadau yn nodweddion y llystyfiant yn arwydd o duedd olynol gyffredinol tuag at weld llystyfiant cysgodol gyda llai o rywogaethau'n tyfu ar dir agored a mwy o rywogaethau talach, mwy cystadleuol, yn cynnwys coed a llwyni. Nid oedd arwyddocâd y duedd hon yr un fath ym mhobman, ac roedd ar ei chryfaf mewn llystyfiant lled olynol mewn nodweddion llinellol, ac yn wannach mewn gwrychoedd oedd eisoes â choed a llwyni fel y prif dyfiant.
4. Rhwng 1990 ac 1998 ac 1998 a 2007, roedd y rhan fwyaf o'r newidiadau yn indecsau'r llystyfiant yn fach wrth eu pwysio a'u mesur yn erbyn lefel yr amrywieldeb yn y llystyfiant a gafodd ei samplu. Roedd hyn yn arbennig o amlwg yn y dadansoddiad cyfunol o'r holl gynefinoedd. Roedd yn arwydd o lawer o amrywieldeb yn y data, sef rhywbech sy'n deillio o greu cyfanswm o'r gwahanol fathau o gynefinoedd. Mae'r patrwm hwn o newidiadau cymharol fach yn gyson â'r patrwm a oedd i'w weld ar gyfer y cynefinoedd unigol. Mae'n awgrymu nad oedd newidiadau sylweddol iawn i'w gweld yng nghyflwr ecolegol y llystyfiant dros y cyfnod cyfan o 17 mlynedd, er bod patrymau ecolegol yn aml i'w gweld yn glir. Mae gofyn gwneud mwy o waith dadansoddi er mwyn asesu a yw'r newidiadau cymharol fach hyn o unrhyw arwyddocâd ecolegol.

5. Roedd y tueddiadau yng nghyflwr y llystyfiant yng Nghymru'n ddigon tebyg i'r rhai a welwyd ar gyfer Prydain Fawr yn gyffredinol. Yn benodol, roedd y lleihad cyffredinol yn helaethrwydd y rhywogaethau ar y safleoedd samplu'n batrwm cyson a welwyd yn y gwledydd eraill hefyd. Roedd y gwahaniaethau ym maint y golled gyfaratalog yn arwydd mae'n debyg o wahaniaethau yn yr helaethrwydd wrth ddechrau mesur, gwahaniaethau yn lleoliad y dirwedd, neu'n wahaniaethau yng nghryfder y ffactorau a oedd yn arwain at y golled. Er hynny, mae angen gwneud mwy o waith ymchwil cyn y gallwn ni ddeall yn well y mecanweithiau a'r effaith ecolegol sy'n arwain at y patrwm cyffredinol hwn.

### **Y canlyniadau yn eu cyd-destun**

Mae'r Arolwg Cefn Gwlad yn cynnig gwybodaeth am gyflwr presennol y llystyfiant, ac am unrhyw newidiadau yng nghyflwr cynefinoedd cyffredin a chyffredinol ar hyd a lled Cymru a'r gweddill o Brydain Fawr. Nid oes unrhyw astudiaeth arall yn cynnig yr un math a'r un faint o wybodaeth am gymaint o gynefinoedd, ac nid yw'n bosib gwneud llawer o gymariaethau uniongyrchol.

Mae'r dirywiad cyffredinol yn helaethrwydd y rhywogaethau'n gwbl groes i'r nod o atal neu gwtogi ar y broses o golli bioamrywiaeth. Ac mae'n groes hefyd i'r nod o gynnal cronfa amrywiol o rhywogaethau i fynd i'r afael â'r newid yn yr hinsawdd. Efallai fod mwy nag un ffactor wedi achosi'r duedd o weld llystyfiant talach sydd yn aml ar ffurf coed tal sy'n cysgodi rhywogaethau eraill: yn eu plith mae llai o reoli dwys (efallai fod cyswllt â'r cynlluniau amaeth-amgylchedd), maetholion yn cael eu dyddodi o'r atmosffer, a'r tywydd. Mae gofyn gwneud mwy o waith dadansoddi i asesu a yw'r naill ffactor a/neu'r llall yn cyfrannu at y newidiadau, ac i bwysio a mesur yr effaith.

### **Ffiniau a Nodweddion Llinellol**

1. Yr amcangyfrif yw bod rhesi o llystyfiant coedig (gwrychoedd wedi'u rheoli a rhesi o goed a llwyni) yn cyfrif am 51% o gyfanswm hyd y Cynefin Eang o Ffiniau a Nodweddion Llinellol yng Nghymru yn 2007. Y ffigur yn Lloegr yw 53%, gydag 13% yn yr Alban. Ffensys oedd y nesaf yn nodweddion mwyaf cyffredin y ffiniau yng Nghymru, sef 35% o gyfanswm yr hyd yng Nghymru.
2. Roedd waliau'r un mor gyffredin yn y ddua fath o barth (tir uchel a thir isel), ond roedd eu cyflwr yn fwy tebygol o fod yn wael yn yr ucheldiroedd.
3. Fel y gweddill o Brydain, mae cwtogi cyson wedi bod rhwng 1998 a 2007 yn hyd y gwrychoedd sydd wedi'u rheoli. Daeth y duedd hon i'r amlwg yn yr arolwg cyntaf yn 1984, ac mae'n parhau. Nid yw'r duedd yn golygu colli nodweddion y rhesi coedig yn gyfan gwbl, ond mae'n debyg mai llai o waith rheoli sydd wedi caniatáu i resi dyfu o goed a llwyni sydd ddim yn cael eu rheoli.
4. Helaethrwydd y rhywogaethau o goed a llwyni yn y nodweddion Llinellol coedig yng Nghymru oedd yr uchaf ym Mhrydain. Roedd 4.2 o rhywogaethau i bob 30m o hyd, o gymharu â 2.2 yn yr Alban a 3.7 yn Lloegr.

5. O asesu'r canlyniadau yn erbyn y meinu prawf yng Nghynllun Gweithredu Bioamrywiaeth y DU, roedd 44% o wrychoedd Cymru mewn cyflwr da yn 2007 (o edrych ar briodoleddau adeiladwaith y gwrychoedd yn unig). Ond roedd y ffigur yn dod i lawr i 7% pan roedd priodoleddau ymylon y gwrychoedd yn cael eu cynnwys hefyd.

### **Y canlyniadau yn eu cyd-destun**

Yr Arolwg o Gefn Gwlad Cymru yw'r prif ffynhonnell o wybodaeth am y ffiniau a'r nodweddion llinellol ei chefn gwlad. Nid oes unrhyw ddata eraill ar gael yn rhwydd y gellid cymharu data'r Arolwg â nhw.

Mae'n edrych yn debyg bod llawer llai o wrychoedd yn cael eu tynnus - sef un o nodweddion pwysicaf canlyniadau'r Arolygon blaenorol. Mae adeiladwaith rhai o'r gwrychoedd wedi newid i siâp llai ffurfiol lle mae'r coed a'r llwyni'n tyfu'n fwy naturiol, sy'n nodwediadol o wrych nad yw'n cael ei reoli. Mae hyn rywfaint yn groes i'r canlyniadau y byddai rhywun yn eu disgwyd dan gynllun rheoli amaeth-amgylchedd. Mae rheoli gwrychoedd yn rhan o lawer o'r cytundebau amaeth-amgylchedd sydd ar waith ar lawer mwy o dir yn ystod cyfnod yr arolwg diweddaraf. Efallai fod effeithiau'r cynllun yn cael eu cuddio gan y cwtogi yn y gwaith rheoli ar dir amaethyddol sydd heb ei gynnwys yn y cynllun ar hyn o bryd. Mae gweld cyn lleied o wrychoedd mewn cyflwr da'n mynd yn gwbl groes i nod Cynllun Gweithredu Bioamrywiaeth y DU, ac mae'n destun pryder.

Mae'n edrych yn debyg bod y waliau naill ai mewn cyflwr da iawn, neu mewn cyflwr gwael iawn. Mae'r duedd hon yn awgrymu patrwm o waith cynnal a chadw rheolaidd mewn rhai mannau, a diffyg llwyr o unrhyw waith rheoli mewn mannau eraill. Os bydd y duedd hon yn para, gallai hynny amharu ar natur y dirwedd mewn rhai ardaloedd.

### **Pridd**

1. Trwy gymryd ffigur cyfaratalog ar gyfer yr holl Gynefinoedd Eang, nid oedd unrhyw newid rhwng 1998 a 2007 yn pH yr haen uchaf o bridd (0-15cm) yng Nghymru. Er hynny, roedd cymharu'r mesur diweddaraf â'r un ar gyfer yr arolwg cyntaf yn 1978 yn dangos cynnydd cyffredinol. Roedd cynnydd yn pH y pridd rhwng 1998 a 2007 ar Laswelltir wedi'i Wella, Glaswelltir Niwtral a Choetiroedd o Goed Colddail. Mae'n debyg bod hwn yn arwydd o bridd llai asidig.
2. Nid oedd unrhyw newid arwyddocaol yn lefel y carbon yn yr haen uchaf o bridd (0-15cm) o edrych ar Gymru gyfan rhwng 1998 a 2007. O edrych ar lefel y carbon yn y pridd mewn cynefinoedd unigol, dim ond mewn Coetiroedd o Goed Colddail yr oedd newid arwyddocaol i'w weld rhwng 1998 a 2007.
3. Roedd y mesur cymedrig o'r carbon yn y pridd (0-15cm) yn 2007 ar ei uchaf at gyfer Rhostiroedd o Gorlwyni, ond nid oedd digon o samplau ar gael i ganiatáu dadansoddi'r Cynefinoedd Eang eraill sy'n llawn mawn, a'r Ffeniau a'r gwahanol fathau o Gorsydd.
4. Cafodd tueddiadau tebyg eu gweld ar gyfer gwledydd eraill Prydain Fawr lle mae pH y pridd wedi'i adfer yn gyffredinol, ac nid oedd unrhyw newid cyson yn y tymor hir yn lefel y carbon yn y pridd.

## ***Y canlyniadau yn eu cyd-destun***

Mae'r Arolwg Cefn Gwlad yn rhoi un o'r setiau prin o ddata ynglŷn â'r tueddiadau yn nodweddion pridd (0-15cm) ym Mhrydain Fawr ac yn y gwledydd sy'n rhan ohoni. Mae nifer fawr o ffactorau (fel llygredd yn yr aer, arferion rheoli tir, a'r newid yn yr hinsawdd) yn gallu effeithio ar swyddogaethau sylfaenol y pridd, sef gweithredu fel hidlydd ar gyfer dŵr, storio carbon, prosesu llygryddion a chynnal y gwaith o gynhyrchu bwyta.

Mae'r data o'r Arolwg Cefn Gwlad dan sylw yma'n awgrymu bod strategaethau'r DU i reoli llygredd yn yr aer trwy gwtogi ar yr allyriadau o sylffwr o ffatrioedd a gorsafoedd pŵer wedi llwyddo i leihau asidedd y pridd (0-15cm) rhwng 1978 a 2007. Mae hwn yn bwysig gan y bydd yn helpu i leihau asidedd mewn nentydd ac afonydd, a bydd hynny o fantais i blanhigion sy'n dioddef pan mae asidedd y pridd yn uchel. Ond mae'n edrych yn debyg hefyd fod y newid hwn wedi arafu'n ddiweddar. Dim ond mewn rhai Cynefinoedd Eang lle mae'r pridd yn organig yn bennaf neu'n llai asidig yr oedd lefel y pH wedi codi rhwng 1998 a 2007. Rydyn ni'n dal i asesu'r newidiadau hyn er mwyn dod i ddeall ai hwn yw'r lefel naturiol ar gyfer cydbwysedd pridd sy'n llawn deunydd organig, neu'n un o effeithiau gweld nitrogen yn cael ei ddyddodi'n gyson ac yn cyfrannu at law asid, neu'n rhywbeth sy'n digwydd yn sgil arferion rheoli tir neu'r newid yn yr hinsawdd.

Mae rhai mathau o bridd yn storio llawer o carbon, ond mae'n ansicr ai gweithgareddau pobl sy'n gwneud i'r pridd ryddhau'r carbon hwn i'r atmosffer. Mae gweld pridd yn ryddhau carbon i'r atmosffer yn gallu cyfrannu at y newid yn yr hinsawdd, ond y gwrthwyneb sy'n digwydd pan mae pridd yn amsugno mwy o carbon deuocsiad. Mae canlyniadau'r Arolwg Cefn Gwlad yn awgrymu nad oedd newid yn lefel y carbon yn yr haen uchaf o bridd (0-15cm) rhwng 1978 ac 1998, ac 1998 a 2007. Nid yw'r canlyniad hwn yn gyson â'r gostyngiad sylweddol yn lefel y carbon yn yr haen uchaf o bridd a oedd dan sylw yn adroddiad rhaglen fonitro'r Rhesstr o Briddoedd Cenedlaethol (National Soils Inventory) yn Lloegr a Chymru rhwng 1978 a 2003. Rhaid gwneud mwy o waith archwilio cyn gallu deall pam mae'r canlyniadau hyn yn wahanol.

Mae'r gwaith o greu papur ymgynghori (Cynllun Gweithredu er lles Pridd Cymru) ar fin dod i ben. Bydd y papur yn canolbwytio ar y prif bethau sy'n bygwth y pridd yng Nghymru, ac yn rhestru camau gweithredu ar gyfer gwella cyflwr a swyddogaeth y pridd. Bydd y set gyflawn o ddata o'r Arolwg Cefn Gwlad yn cynnwys lefel yr halogyddion, swyddogaeth y pridd, a bioamrywiaeth. Bydd y set yn gweithredu fel un ffynhonnell o dystiolaeth ynglŷn ag effeithiolrwydd dewis helaeth o bolisiau sy'n gallu effeithio ar y pridd yng nghefn gwlad.

## ***Nentydd a phyllau blaenddwr***

1. Cynyddodd y nifer o byllau yng Nghymru o tua 40,000 yn 1998 i tua 47,000 yn 2007. Dim ond 5% o'r pyllau oedd mewn cyflwr da pan gawson nhw eu hasesu yn 2007.

**2.** O ran glannau afonydd a nentydd, gwelwyd tueddiad olynol amlwg a chyson. Mae hyn yn gyson â gweld y coed a'r llwyni sy'n tyfu ar hyd y glannau'n rhoi llawer mwy o gysgod sy'n arwain at leihad yn helaethrwydd y rhywogaethau, yn arbennig y planhigion mae larfau glöynnod byw'n eu bwyta.

**3.** Nid oedd unrhyw newid rhwng 1998 a 2007 yn helaethrwydd y rhywogaethau yn y samplau o'r cysriau dŵr (y blaenddwr yn bennaf). Roedd gwelliant yn nodweddion ffisegol y cysriau dŵr.

## ***Y canlyniadau yn eu cyd-destun***

Mae'r Arolwg Cefn Gwlad yn cynnig gwybodaeth am byllau a blaenddwr, sef casgliadau o ddŵr sydd ddim yn cael llawer iawn o sylw mewn arolygon eraill o ddŵr croyw.

Mae'r cynnydd yn nifer y pyllau'n gyson â nod polisiau bioamrywiaeth, ond mae eu safon ecolegol gyffredinol yn cyfyngu ar y manteision sy'n deillio o godi'r nifer. Bydd gofyn gwneud mwy o waith i ddod i ddeall y rhesymau dros ansawdd gwael y rhan fwyafr o'r pyllau. Mae gweld maetholion yn rhedeg o dir amaethyddol cyfagos yn gallu amharu arnyn nhw, ac efallai fod angen gwneud mwy i roi sylw i'r broblem hon. Efallai hefyd fod angen gwell canllawiau ynglŷn â lleoli pyllau newydd.

Mae newidiadau yn adeiladwaith ffisegol afonydd yn arwydd gadarnhaol sy'n gysylltiedig efallai â newidiadau yn llystyfiant y glannau oherwydd y gwahanol gamau sydd ar waith i helpu i greu corridorau ar hyd glannau nentydd.

## ***Dehongliad cyffredinol o safbwynt polisiau amgylcheddol***

Cafodd gwerthusiad rhagarweiniol ei wneud o ddarganfyddiadau'r Arolwg o Gefn Gwlad Cymru o safbwynt y prif heriau dan sylw yn y Strategaeth Amgylcheddol ar gyfer Cymru:

- **Newid yn yr hinsawdd**
- **Defnydd anghynaliadwy ar adnoddau**
- **Ecosystemau sydd wedi diraddio**
- **Colli bioamrywiaeth**
- **Amgylcheddau lleol o safon wael**
- **Peryglon amgylcheddol**
- **Colli ansawdd a hynodrwydd tirweddau a threftadaeth**

Mae'r darlun yn un cymysg. Ar yr ochr gadarnhaol, mae'r Arolwg wedi rhoi dystiolaeth glir fod lefel yr asid yn y pridd yn lleihau<sup>1</sup>, tuedd sy'n gyson â chwtogï'n sylweddol ar yr allyriadau o sylffwr deuocsiad. Mae'n debyg fod hwn hefyd yn arwydd o sut y gall polisiau wrthdroi effeithiau negyddol gweithgarwch pobl. Mae colli gwrychoedd wedi parhau'n isel<sup>2</sup> ar ôl cyfnod yn yr 1980au pan roedd y colledion yn sylweddol. Efallai y bydd gweld mwy o goed a llwyni'n tyfu ar hyd nodweddion llinellol (hesi), a chynnydd yn arwynebedd y Coetiroedd o Goed Colddail, yn gwella'r cysylltiadau rhwng tameidiau o

<sup>1</sup> Her y Strategaeth Amgylcheddol: 'Ecosystemau sy'n diraddio'

<sup>2</sup> Her y Strategaeth Amgylcheddol: 'Colli ansawdd a hynodrwydd tirweddau a threftadaeth'

gynefinoedd y gall rhywogaethau sy'n symud yn sgil y newid yn yr hinsawdd eu defnyddio wrth deithio o le i le<sup>3</sup>. Mae'r gwelliannau yn adeiladwaith ffisegol nentydd a'r cynnydd yn nifer y pyllau'n ddarganfyddiadau cadarnhaol ar gyfer bioamrywiaeth<sup>4</sup>. Mae prinder rhywogaethau estron o blanhigion yn gadarnhaol hefyd. Efallai y bydd y newid yn y llystyfiant ar hyd glannau nentydd yn helpu i amddiffyn y nentydd yn well rhag cael eu llygru gan faetholion yn rhedeg o dir ffermio cyfagos<sup>5</sup>.

Mae newidiadau yng nghyflwr y llystyfiant yn awgrymu bod rhai agweddu ar y gwaith rheoli'n llai dwys, ond nid yw'n glir a yw hyn yn arwydd hefyd o newid yng nghynaliadwyedd y gwaith rheoli<sup>6</sup>. Mae'n debyg mai llai o waith rheoli sy'n gyfrifol am y newid yn adeiladwaith ffisegol y gwrychoedd, ond bydd rhaid asesu eto beth fydd goblygiadau'r fath newidiadau i fioamrywiaeth ac i waith cadwraeth y tirweddau fel ei gilydd.

Ar yr ochr negyddol, mae gostyngiad cyffredinol yn helaethrwydd rhywogaethau o blanhigion yn pwysleisio mwy fyth yr her o roi sylw i golli bioamrywiaeth. Yn benodol, mae'r lleihad yn helaethrwydd y rhywogaethau o blanhigion mae larfau glöynnod byw ac adar tir ffermio'n eu bwyta'n awgrymu y gallai hyn amharu ar grwpiau eraill o anifeiliaid. Ar ben hynny, gallai lleihad yn helaethrwydd rhywogaethau effeithio hefyd ar allu'r amgylchedd i addasu i'r newid yn yr hinsawdd. Mae'r newid yn adeiladwaith y gwrychoedd a'r diffyg cyffredinol o'r llystyfiant sy'n gysylltiedig â'r ymylon yn golygu bod cyflwr y rhan fwyaf ohonyн nhw'n bell o fod yn cyraedd y safon mae polisiau bioamrywiaeth yn ei cheisio.

Mewn rhai achosion, efallai mai canlyniad uniongyrchol i gamau gweithredu i geisio gwireddu manteision amgylcheddol eraill (er engrhaift, codi ffensys ar hyd nentydd) sydd wedi achosi'r lleihad yn helaethrwydd rhywogaethau o blanhigion. Ar ben hynny, efallai fod gweld mwy o goed a llwyni'n gorchuddio nodweddion llinellol (ar y cyd â chynnydd yn y Coetiroedd o Goed Colldail, Cymysg ac Yw ar dir isel yng Nghymru) yn gwella'r cysylltiadau rhwng cynefinoedd, er ei fod yn golygu colli helaethrwydd y rhywogaethau. Mae gwella'r cysylltiadau fel hyn yn cael ei weld fel cam pwysig yn y dasg o ymateb i'r newid yn yr hinsawdd. Mae'n debyg y bydd pennu gwerth y fath newidiadau, sydd ag agweddu cadarnhaol yn ogystal â rhai negyddol, yn dibynnu ar y cyd-destun lleol a'r dirwedd gyffredinol lle y maen nhw'n digwydd. Un o'r prif heriau i'n cymdeithas o hyd yw annog pobl i fabwysiadu set gytbwys o gamau rheoli addas a fydd yn gwireddu gwahanol fanteision amgylcheddol yn lleol ac yn genedlaethol.

## ***Y camau nesaf***

Cyflwyno casgliadau'r cam cyntaf o ddadansoddi y mae'r adroddiad hwn. Mae angen gwneud llawer mwy o waith cyn y gallwn ni dded i ddeall yr hyn sy'n achosi'r newidiadau sydd i'w gweld, ac i benderfynu a yw'r newidiadau hyn yn digwydd oherwydd gwaith rheoli penodol neu yn sgil polisiau. Mae'r gwaith hwnnw wedi dechrau'n barod. Un o brif amcanion y gwaith dadansoddi ychwanegol yw asesu'r canlyniadau o safbwyt darparu'r gwasanaethau ecosystem presennol a rhai'r dyfodol.

Yn ogystal â'r adroddiad hwn, bydd yr Arolwg yn cyhoeddi adroddiadau eraill dros y ddwy flynedd nesaf. Cyn hynny, mae disgwyl y bydd adroddiadau ar wahân yn dadansoddi ymhellach y canlyniadau ar gyfer pyllau, pridd a dŵr croyw'n cael eu cyhoeddi cyn diwedd 2009. Bydd y cyfan ar gael o wefan yr Arolwg.

Mae pob Arolwg Cefn Gwlad yn rhoi llawer iawn o ddata ac mae angen amser i'w dadansoddi. Ac wrth i amser fynd yn ei flaen, mae'r setiau data'n mynd yn fwy cymhleth ac yn fwy gwerthfawr. Fel sydd wedi digwydd gyda'r arolygon blaenorol, mae disgwyl i ddata 2007 fynd yn rhan o sylfaen bwysig o dystiolaeth ar gyfer polisiau a gwaith ymchwil gwyddonol yng Nghymru ac ym Mhrydain Fawr fel ei gilydd. Un o'r ffyrdd y bydd y data newydd yn cael eu defnyddio ar unwaith yw'r asesiad cenedlaethol o ecosystemau'r DU a'r gwledydd sy'n rhan ohoni (National Ecosystem Assessment of the UK) sydd newydd gael ei gyflwyno.

<sup>3</sup> Her y Strategaeth Amgylcheddol: 'Newid yn yr hinsawdd'

<sup>4</sup> Her y Strategaeth Amgylcheddol: 'Colli bioamrywiaeth'

<sup>5</sup> Her y Strategaeth Amgylcheddol: 'Peryglon amgylcheddol'

<sup>6</sup> Her y Strategaeth Amgylcheddol: 'Defnydd anghynaliadwy ar adnoddau'

## Further information and future analysis

More details of the methodology, analyses and results from Countryside Survey can be found in other companion reports and data resources available from the Countryside Survey website.

This report for Wales is one of a suite of reports that have either already been published or are scheduled for publication in the next year or two. The UK results of Countryside Survey were published in November 2008, and this report is one of several country reports that are being produced in summer 2009.

More detailed analysis of particular components of the survey – soils, streams and ponds – will be reported later in 2009 in separate themed reports. A detailed, integrated assessment of Countryside Survey data alongside other datasets, exploring what the results mean for provision of selected ecosystem goods and services, will be reported in 2010. While these reports will make use of the fuller Countryside Survey dataset, rather than a single country dataset, the results will have considerable relevance for Wales. Rather than marking the end of our evaluation of what Countryside Survey results mean for the Welsh countryside, this current report only marks the beginning.

### Reports:

- UK Headline Messages – *published November 2008*
- UK Results from 2007 – *published November 2008*
- Detailed Northern Ireland Countryside Survey results – *published 2010*
- England Results from 2007 – *due to be published August 2009*
- Scotland Results from 2007 – *published 25th June 2009*
- Ponds – *due to be published Summer 2009*
- Streams – *due to be published October 2009*
- Soils – *due to be published November 2009*
- Integrated Assessment – *due to be published 2010*

### Data resources:

- Web access to **summary data** – a systematic summary of the results used to inform the UK and country level reports – *launched in November 2008 and updated in January 2009*
- Web access to the **actual data** – data from individual survey squares used to generate all the results presented in Countryside Survey reports from the 2007 survey – *licensed access available from June 2009*
- The UK Land Cover Map for 2007 – *September 2009*

The data generated by Countryside Survey will continue to be investigated in conjunction with other information such as climate, pollution and agricultural statistics. It is anticipated that future analysis of Countryside Survey data will lead to many scientific journal articles over the coming years. These investigations will improve understanding about the possible causes of the changes detected in the countryside and, for example, provide an opportunity to explore the results for Priority Habitats in more detail.

## Contacts

For further information on Countryside Survey see  
**[www.countrysidesurvey.org.uk](http://www.countrysidesurvey.org.uk)** or contact:

Countryside Survey Project Office,  
Centre for Ecology and Hydrology,  
Lancaster Environment Centre, Library Avenue,  
Bailrigg, Lancaster LA1 4AP

Telephone: **01524 595811**  
Email: **[enquiries@ceh.ac.uk](mailto:enquiries@ceh.ac.uk)**

**COPYRIGHT:** This publication is the Copyright of the Natural Environment Research Council, July 2009

**Copyright:** of all graphs, diagrams and charts is owned by the Natural Environment Research Council

**Copyright of photographs:** Copyright of photographs is as acknowledged in individual captions

### Copyright enquiries should be addressed to:

Knowledge Transfer Team, Centre for Ecology and Hydrology,  
Maclean Building, Benson Lane, Wallingford OX10 8BB

This publication, excluding logos, may be reproduced free of charge in any format or medium for research, private study or the purposes of internal use within an organisation. This is subject to it being reproduced accurately and not being subject to any treatment that could be considered derogatory. The reproduced material must be acknowledged as NERC Copyright (except where otherwise stated) and the publication named in full.

### Disclaimer

Any decisions or actions informed by these results are taken entirely at your own risk. In no event shall NERC be liable for any damages, including loss of business, loss of opportunity, loss of data, loss of profits or for any other indirect or consequential loss or damage whatsoever arising out of the use of or inability to use the results presented in this report.

The Countryside Survey partnership has endeavoured to ensure that the results presented in this report are quality assured and accurate. Data has been collected to estimate the stock, change, extent and/or quality of the reported parameters. However, the complex nature of the experimental design means that results can not necessarily be extrapolated and/or interpolated beyond their intended use without reference to the original data.



This document has been designed and optimised to be printed as portrait A4 double-sided pages. When printing from the software application Adobe® Reader®, please use the 'Fit to paper' or 'Shrink to Printable Area' options found in the 'Page Scaling' drop down menu of the 'Print' dialogue box.

Designed by Countryside Survey